

## **Adroddiad Ymgynghori - Grangetown: Clive Street (S278) Rheoliadau Twmpathau Ffordd**

**Rhif project:**CO17141

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 31 Ionawr 2020 ac 21 Chwefror 2020. Cafwyd 6 ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori. Crynhoir y gofidiau a'r sylwadau a gafwyd isod mewn ysgrifenedig, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

### **Argymhelliad**

O ystyried yr adroddiad isod, cynigir bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion er mwyn bodloni amodau'r Cytundeb A278.

Mae gofyn i'r project gyflawni amod cynllunio yn gysylltiedig â chais rhif 15/02834/MJR y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer ar 7 Tachwedd 2016. Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar elfen arafu traffig y cynllun mewn cydymffurfiaeth â Rheoliadau Priffyrdd (Twmpathau Ffordd) 1999.

### **Isod mae'r sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:**

#### **Mater – Pryderon Dros Adeiladu Twmpathau Ffordd**

"Lle bynnag y bydd twmpathau ffordd lled llawn yn cael eu cyflwyno, rydym o hyd yn mynegi pryderon ynghylch eu proffil a'r cynnal a chadw arnynt. Ledled y ddinas mae lluo o enghreifftiau lle mae'r proffiliau yn amrywio cymaint fel eu bod yn effeithio ar ddiogelwch ein cerbydau, amser teithiau ac ansawdd y profiad teithio.

Mae gyrru parhaus dros y cyfyngiadau hyn yn prysuro dirywiad cydrannau ar y bws sy'n golygu cyfradd adnewyddu amlach a chost uwch i'n busnes. Maent hefyd yn cael effaith andwyol ar ansawdd y profiad teithio a chyflymder teithiau a gall hyn amharu ar nifer y teithiau y bydd cwsmeriaid yn eu gwneud. Rydym yn gweithredu gwasanaeth rheolaidd ar hyd Stryd Clive, hyd at 4 bws yr awr i bob cyfeiriad yn ystod yr wythnos, sy'n golygu y byddai pob taith yn mynd dros y tablau cyflymder arfaethedig."

#### **Ymateb**

*Cydnabyddir bod twmpathau ffordd ag amrywiol oleddfau ar hyd a lled y ddinas a cheisiwn ddarparu byrddau â goleddf gyson ar bob twmpath ffordd newydd. Er mwyn cynnig taith esmwyth i deithwyr bysiau, caiff y twmpathau hyn eu cynllunio â goleddf o 1 mewn 16, gyda lleiafswm pellter o chwe metr rhwng dechrau a diwedd y twmpathau, na ddylai beri difrod i gerbydau os eir drostynt ar gyflymder addas. Rydym hefyd yn defnyddio deunydd wyneb ffordd gwell ar y twmpath ei hun ac ar yr ardal yn union o'i flaen ac ar ei ôl er mwyn lleihau unrhyw newid i'r proffil.*

*Yn anffodus, un o'r unig ddulliau sydd gennym i arafu traffig yw trwy ddefnyddio twmpathau arafu. Mae twmpathau arafu yn addas ar gyfer y lleoliadau hyn er mwyn creu amgylchedd priffordd mwy diogel yn y groesfan i gerddwyr.*

## Mater – Colli Parcio

Cododd nifer o drigolion bryderon ynglŷn â cholli lleoedd parcio o ganlyniad i gyflwyno'r groesfan sebra ddyrchafedig a gynigir.

### Ymateb

*Os na all preswylwyr gadw eu cerbydau oddi ar y ffordd, byddai angen iddynt ddod o hyd i fan parcio priodol mewn lle diogel a chyfreithlon arall. Priffyrdd cyhoeddus yw'r ffyrdd ac felly mae gan holl aelodau'r cyhoedd hawliau cyfartal yn ôl y gyfraith i ddefnyddio'r ffyrdd, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau sydd ar waith. Nid oes gan breswylwyr hawliau mwy i ddefnyddio'r ffordd y maent yn byw ynddi nac unrhyw berson arall.*

*Mae'r marciau ffordd igam-ogam sy'n gysylltiedig â'r groesfan sebra wedi'u lleihau i'w lleiafswm pendant i sicrhau y collir cyn lleied o barcio â phosibl, ni fydd unrhyw barcio sydd wedi'i ddadleoli dros bellter sylweddol.*

*Mae Cyngor Caerdydd yn ymwybodol o'r galw am leoedd parcio a byddwn yn cymryd yr holl fesurau i sicrhau bod cymaint â phosibl o leoedd parcio ar gael o fewn y math hwn o gynllun. Fodd bynnag, ystyrir diogelwch cerddwyr a hwyluso symudiad cyfleus diogel cerddwyr yn bwysig iawn, yn unol â pholisïau a strategaeth y Cyngor. Mae hyn yn cymryd blaenoriaeth dros ddarpariaeth parcio. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried y sylwadau hyn a gweld yr hyn y gellir ei wneud yn ystod y broses ddylunio manwl i wella nifer y manau parcio sydd ar gael.*

## Mater – bydd preswlydd anabl yn cael trafferth dod o hyd i faes parcio

"Rwy'n ofni, os na allaf barcio y tu allan i'w preswylfa oherwydd cyfyngiadau croesi sebra, y bydd yn peri problemau difrifol iddi oherwydd ei phroblemau symudedd a bydd hyn wedyn yn effeithio ar ei hiechyd a'i diogelwch. Rwy'n gobeithio, felly, y gallwch symud y groesfan i le mwy addas."

### Ymateb

*Mae gan ddeiliaid Bathodyn Glas hawl i wneud cais am Lefydd Parcio i Bobl Anabl os ydynt yn ateb y meini prawf gofynnol. Dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am Lefydd Parcio i Bobl Anabl at y Tîm Gorchmynion Rheoli Traffig i ymchwilio. Gellir cysylltu â'r tîm drwy'r manylion isod:*

*Tîm Gorchmynion Rheoli Traffig, Cyngor Caerdydd, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW  
[gwasanaethaucymdogaeth-cymorthbusnes@caerdydd.gov.uk](mailto:gwasanaethaucymdogaeth-cymorthbusnes@caerdydd.gov.uk)*

## Mater – lleoliad y twmpath cyflymder arfaethedig yn y lôn gefn

"Mae lle rhwng drysau garej ar gyfer y twmpath hwn, felly mae'r lleoliad yn union o flaen fy garej a fyddai'n effeithio ar y mynediad iddo, ni ddylai fod yn angenrheidiol."

### Ymateb

*Bydd cynllun y ddarpariaeth tawelu traffig ar y lôn gefn yn cael ei adolygu a'i ddiwygio os oes angen er mwyn sicrhau nad oes unrhyw rwystr i'r fynedfa breswyl.*

## **Isod mae'r sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd o blaid y cynnig:**

"o ran y twmpathau ffordd, rwy'n cytuno'n gryf y dylai bod rhai oherwydd bod ceir yn rasio yn rheolaidd ar hyd y stryd hon. Pe byddech yn rhoi twmpathau ffordd priodol, h.y. nid y rhai y gallwch yrru drostynt fel eu bod yn mynd dan ganol y car, pe bai'r rhain yn cael eu gwneud i arafu ceir, ni fyddai angen am groesfan sebra

## **Isod mae sylwadau ychwanegol a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori:**

### Mater – Adleoli Bolardiau

"Hefyd, i leddfu'r broblem parcio sydd ar y gorwel, mae cynnig i ail-leoli'r bolardiau metel sydd ym mhen stryd Clive ar Stryd Sain Ffagan, i ochr arall y lôn gefn fel y byddai mynediad i breswylwyr sy'n byw yn eiddo 101 i 113, petaent yn dymuno parcio'u cerbydau yn eu garejys. Byddai hyn yn costio ychydig iawn gan nad oes ymylon cyrbau na phalmentydd i'w hailgysoni."

### Ymateb

*Mae'r mater a godwyd y tu allan i gwmpas y cynnig hwn ac nid yw'n ffurfio rhan o'r ymgynghoriad hwn. Os oes gan breswylwyr unrhyw bryderon eraill ynghylch diogelwch ar y ffordd, gallant eu hanfon drwy e-bost i: [projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk) neu drwy'r posti Prosiectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW ar gyfer ymchwiliad.*

### Mater – Ymgynghori ar y Ffordd Fynediad

"Nid ymgynghorwyd â ni ynglŷn â'r ffordd fynediad newydd arfaethedig i'r datblygiad tai newydd. Yn sicr, byddai synnwyr cyffredin wedi dweud y byddai rhoi mynediad o gylchfan IKEA i Ferry Road wedi bod yn well nag i Clive Street, sy'n stryd breswyl lle mae tagfeydd eisoes.

### Ymateb

*Pennwyd y gofynion mynediad i'r datblygiad cyn rhoi'r caniatâd cynllunio, a buont yn destun sylwadau cyhoeddus fel rhan o'r broses ymgynghori gyffredinol ar gynllunio. Roedd hyn yn cynnwys y bwriad i ddymchwel eiddo Rhif 130 Clive Street er mwyn darparu ar gyfer y mynediad i'r datblygiad newydd. Mae cofnodion y Cyngor yn nodi y cafwyd cyfanswm o saith gwrthwynebiad cyhoeddus yn ystod y cyfnod ymgynghori yn codi pryderon amrywiol yn ymwneud â datblygu.*

